



**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL**  
**RHONDDA CYNON TAF**  
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR**

C Hanagan  
Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf  
Y Pafiliynau  
Parc Hen Lofa'r Cambrian  
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt: Hannah Williams - Uned Busnes Rheoleiddiol a Gweithredol (01443 424062)

Bydd cyfarfod o'r **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** yn cael ei gynnal yn **Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypanyd CF40 2XX** ar **DYDD IAU, 14EG MEHEFIN, 2018** am **5.00 PM**.

MAE MODD I AELODAU O'R CYHOEDD OFYN I ANNERCH Y PWYLLGOR YN YSTOD Y CYFARFOD SY'N YMWNEUD Â'R MATER SYDD WEDI'I NODI. RYDYN NI'N GOFYN EICH BOD CHI'N RHOI GWYBOD AM EICH BWRIAD I SIARAD DRWY E-BOSTIO **GWASANAETHAUCYNLLUNIO@RCTCBC.GOV.UK** ERBYN 5PM AR DYDD MAWRTH, 12 MEHEFIN 2018, GAN NODI A FYDDWCH CHI'N SIARAD YN GYMRAEG NEU'N SAESNEG.

MAE'N BOSIB BYDD TREFN YR AGENDA'N NEWID ER MWYN HWYLUSO BUSNES Y PWYLLGOR.

**AGENDA**

**Tudalennau**

**1. DATGAN BUDDIANT**

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

**Noder:**

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

## **2. DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU**

Nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu materion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

## **3. DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

Nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

## **4. COFNODION**

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 19 Ebrill, 2018.

5 - 16

## **CEISIADAU A ARGYMHELLIR AR GYFER EU CYMERADWYO GAN Y CYFARWYDDWR GWASANAETH – MATERION CYNLLUNIO**

### **5. CAIS: 16/0753**

Datblygiad preswyl ar safle Capel a Festri Llanhari. Capel i gael ei newid yn ddau eiddo preswyl. Festri i gael ei hadnewyddu'n dŷ annedd newydd. Gwneud mynediad newydd i gerbydau a chyfleusterau parcio ar y safle i ddarparu cyfleusterau parcio oddi ar y stryd (disgrifiad a chynlluniau diwygiedig wedi'u derbyn 03/10/17). (cynllun trefn diwygiedig wedi'i dderbyn 15/02/18), Safle'r Capel, Addison Avenue, Llanhari, Pont-y-clun.

17 - 28

### **6. CAIS: 17/0693**

Swyddfeydd 2 lawr a gweithdy arfaethedig (cynllun lleoliad diwygiedig wedi'i dderbyn 11 Ebrill 2018), Plot D9, Heol Crochendy, Ystad Ddiwydiannol Trefforest.

29 - 40

### **7. CAIS: 17/1315**

Cadw'r stabl sengl a'r stordy gwair/ystafell harneisiau a'r colomendy (cynlluniau cywir diwygiedig wedi'u derbyn 27/4/18), tir y tu ôl i 4 Littlewoods, Abercynon.

- 41 - 46**
- 8. CAIS: 17/1351**  
Cynllun arfaethedig i adeiladu 8 tŷ annedd â 3 ystafell wely, ynghyd â pharcio oddi ar y stryd cysylltiedig a man amwynder, tir ar Salisbury Road, Abercynon, Aberpennar.
- 47 - 62**
- 9. CAIS: 18/0177**  
Cyswllt ar gyfer Gallop, Ffermdy, Fferm Garth Isaf, Heol Ffrwd Philip, Efail Isaf, Pontypridd.
- 63 - 72**
- 10. CAIS: 18/0178**  
Gwaith arfaethedig i gynnal a gwella'r llwybr mynediad i Fferm Garth Isaf. Llydanu'r ymyl i'r dwyrain o'r gyffordd. Adeiladu wal gynnal gerrig. Gosod gatiau, Fferm Garth Isaf, Heol Ffrwd Philip, Efail Isaf, Pontypridd.
- 73 - 82**
- 11. CAIS: 18/0206**  
Tŷ annedd 3 ystafell arfaethedig. (Cynlluniau a ffin linell goch wedi'u derbyn 23/04/18), tir gyferbyn â 7 James Street, Godreaman, Aberdâr.
- 83 - 92**
- 12. CAIS: 18/0267**  
Defnydd arfaethedig fel eiddo byw â chymorth ar gyfer 7 preswlydd a chyfleusterau staff cysylltiedig (Cartref Gofal Preswyl C2) (Disgrifiad diwygiedig a datganiadau ategol pellach wedi'u cyflwyno), Dan-y-graig, 11 Vicarage Road, Pen-y-graig, Tonypany.
- 93 - 100**
- 13. CAIS: 18/0353**  
Cais cynllunio amlinellol (gyda phob mater wedi'i gadw ar wahân i fynediad) am ddatblygiad preswyl o hyd at 93 tŷ annedd a gwaith cysylltiedig, tir yn Fferm Pentwyn Cynon, Hirwaun.
- 101 - 116**
- 14. CAIS: 18/0407**  
Newid defnydd arfaethedig o swyddfeydd (B1) a manwerthu (Dosbarth A1) i far/bwyty (A3). (Disgrifiad diwygiedig o ddatblygiad wedi'i dderbyn 17/05/18), Tŷ Carreg, Cowbridge Road, Pont-y-clun.
- 117 - 124**

### **ARCHWILIAD O'R SAFLE**

- 15. CAIS: 18/0018**  
Datblygiad preswyl arfaethedig (cynlluniau diwygiedig wedi'u derbyn 29/01/18 a 14/02/18 a disgrifiad diwygiedig wedi'i dderbyn 13/02/18). Blake Street, Y Maerdy, Glynrhedynog, CF43 4AH.

**CAIS WEDI'I OHIRIO****16. CAIS: 17/1201/10**

Newid defnydd yr eiddo o fod yn dŷ annedd (Dosbarth C3) i fod yn dŷ amlfeddiannaeth (Dosbarth C4), 53 Kingsland Terrace, Trefforest, Pontypridd.

147 - 158

**ADRODDIAD ER GWYBODAETH****17. GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

Rhoi gwybod i'r Aelodau am y canlynol, ar gyfer y cyfnod 07/05/2018 at 01/06/2018.

Penderfyniadau Cynllunio a Gorfodi – Apeliadau a Dderbyniwyd.

Penderfyniadau Cynllunio a Gorfodi – Apeliadau a Dderbyniwyd.

Penderfyniadau Dirprwyedig – Ceisiadau wedi'u cymeradwyo a'u gwrthod gyda rhesymau.

Trosolwg o Achosion Gorfodi.

Penderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig.

159 - 176

**18. BUSNES BRYD**

Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn rhai bryd yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.

**Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus**

**Cylchrediad:-**

**Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu:**

Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Materion Rheoli Datblygu  
(Y Cynghorydd S Rees a Y Cynghorydd G Caple)

Y Cynghorydd J Bonetto, Y Cynghorydd P Jarman, Y Cynghorydd D Grehan,  
Y Cynghorydd G Hughes, Y Cynghorydd J Williams, Y Cynghorydd S Powell,  
Y Cynghorydd W Owen, Y Cynghorydd Owen-Jones and Y Cynghorydd J Brencher

Cyfarwyddwr Uwchadran Adfywio, Cynllunio a Thai  
Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio  
Rheolwr Gwasanaethau Datblygu  
Rheolwr Gwasanaethau Datblygu  
Rheolwr Datblygu Priffyrdd a Mabwysiadu Priffyrdd  
Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol – Cynllunio a'r Amgylchedd